

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	RHYBUDD O GYFARFOD
PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD	DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE
DYDD IAU, 29 GORFFENNAF 2021 am 2.00 o'r gloch	THURSDAY, 29 JULY 2021 at 2.00 pm
CYFARFOD RHITHIOL WEDI'I FFRYDIO'N FYW (AR HYN O BRYD NID OES MODD I'R CYHOEDD FYNYCHU)	VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING (AT PRESENT MEMBERS OF THE PUBLIC ARE UNABLE TO ATTEND)
Swyddog Pwyllgor	Shirley Cooke 01248 752514
	Committee Officer

AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

Plaid Cymru / The Party of Wales

John Griffith, Vaughan Hughes (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), R G Parry OBE, Dylan Rees, Nicola Roberts

Y Grŵp Annibynnol / The Independent Group

Richard Griffiths, Dafydd Roberts

Plaid Lafur Cymru / Wales Labour Party

J Arwel Roberts

Annibynnwyr Môn / Anglesey Independents

Eric Jones, R Llewelyn Jones (Cadeirydd/Chair)

R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 16 Mawrth 2021
- 18 Mai 2021

3 **DATGANIAD AMRYWIAETH** (Tudalennau 7 - 10)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democraidd.

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 16 Mawrth 2021

- PRESENNOL:** Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Cadeirydd)
- Cynghorwyr Richard Griffiths, Vaughan Hughes, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Dylan Rees, Dafydd Roberts
- WRTH LAW:** Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Rheolwr Hyfforddiant Adnoddau Dynol (MW)
Swyddog Hyfforddiant Adnoddau Dynol (CD)
Swyddog Pwyllgor (SC)
- YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr John Griffith, J Arwel Roberts
-

1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

1. COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor blaenorol a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2020 fel cofnod cywir.

2. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL AR GYFER 2021/22

Cyflwynwyd - adroddiad diweddarau gan Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar Adroddiad Blynyddol Terfynol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a gyhoeddwyd 25 Chwefror 2021, gan nodi'r mathau a'r lefelau o daliadau y gall neu y dylai awdurdodau sicrhau eu bod ar gael i'w Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig.

Fe adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod y prif newidiadau sy'n berthnasol i'r Cyngor hwn yn weithredol o 1 Ebrill 2021, ac fe'u hamlinellir isod :-

- Bydd y cyflog sylfaenol i aelodau etholedig yn codi £150 i £14,368;
- Bydd uwch gyflogau (taliadau i aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, Cadeiryddion Pwyllgorau ac Arweinydd yr wrthblaid) yn codi ar yr un gyfradd a'r cyflog sylfaenol (1.06%);
- Bydd cyflogau penaethiaid dinesig a'u dirprwyon yn codi – bydd Cadeiryddion Pwyllgorau yn derbyn £23,161 (Band 3), a bydd Is-Gadeiryddion yn derbyn £18,108 (Band 5);
- Bydd taliadau i aelodau cyfetholedig yn codi £12 y diwrnod;
- Bydd costau gofal (wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru) yn cael eu had-dalu yn llawn;
- Bydd costau gofal anffurfiol (heb eu cofrestru) yn cael eu had-dalu hyd at y

gyfradd uchaf gyfwerth i'r Cyflog Byw, ar yr adeg y ceir y costau.

PENDERFYNWYD nodi'r penderfyniadau o fewn Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2021/22.

3. DATBLYGIAD AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad diweddarau gan y Rheolwr Hyfforddiant AD ar ddarpariaeth hyfforddiant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20.

Adroddodd y Rheolwr Hyfforddiant AD mai ychydig iawn o sesiynau hyfforddi a gynigwyd i Aelodau Etholedig yn ystod chwarter olaf 2019/20 oherwydd y pandemig. Y bwriad yw rhoi Cynllun Datblygu a Hyfforddiant Aelodau diwygiedig at ei gilydd, a fyddai'n cynnwys unrhyw gyfleoedd hyfforddi perthnasol na gyflawnwyd yn ystod 2019/20, hyd at etholiadau 2022.

Adroddodd y Rheolwr Hyfforddiant AD fod pynciau a'u hamlygwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a swyddogion o fewn y Cyngor wedi eu cynnwys o fewn y Cynllun Datblygiad drafft, ynghyd ag adborth o Adolygiadau Datblygiad Personol Aelodau unigol.

Nodwyd fod y modiwlau E-Ddysgu ar blatfform Porth Dysgu'r Awdurdod yn parhau i fod ar gael. Amlygwyd bod y modiwlau'n darparu hyblygrwydd ar gyfer hyfforddiant ar-lein, a'u bod ar gael yn rhithiol.

Cyfeiriwyd at ddatblygiad a chyhoeddiad Bwletin dwyieithog i Aelodau Etholedig, sydd â'r nod o ddarparu gwybodaeth am ddigwyddiadau hyfforddi a chyfleoedd datblygiad i Aelodau. Yn dibynnu ar y gwerth tybiedig a'r adborth a gafwyd, cynigiwyd y gallai Bwletin gael ei gynhyrchu a'i ddsbarthu bob chwarter.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar anghenion hyfforddi Aelodau unigol, fel â ganlyn: -

- Gwnaed cais i sesiynau hyfforddi gael eu cynnal wyneb yn wyneb fel sesiynau grŵp ar MS Teams neu Zoom yn hytrach na chyrchu cyrsiau E-Ddysgu ar-lein yn unigol. Y Rheolwr Hyfforddiant AD i drafod gyda Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd.
- Amlygodd Aelodau faterion Iechyd Meddwl oedolion a Diogelu fel pynciau posib i'w cynnwys yn y Cynllun Datblygu. Esboniodd y Rheolwr Hyfforddiant AD fod adran benodol ar gyfer Aelodau Etholedig yn mynd i gael ei datblygu ar y Porth Dysgu a fydd yn galluogi mynediad at fodiwlau/gwybodaeth hyfforddi, ynghyd â gwybodaeth ar iechyd a llesiant, yn debyg i beth sydd ar gael ar hyn o bryd i staff.
- Awgrymwyd bod sesiynau hyfforddiant wyneb yn wyneb ar-lein yn cael eu recordio yn y dyfodol er mwyn rhoi hyblygrwydd ac opsiynau chwarae'r fideo. Teimlodd yr Aelodau yn gyffredinol fod gwybodaeth sy'n cael ei chyflwyno'r bersonol yn haws i'w gofio, ac yn rhoi cyfle i ofyn a chael atebion i gwestiynau yn ystod trafodaethau. Dywedodd y Rheolwr Hyfforddiant AD y byddai hyn yn ddibynnol ar ddarparwyr hyfforddiant yn cytuno i ganiatáu i'w sesiynau gael eu recordio.
- Gwnaed cais i adroddiad cynnydd gael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn, yn rhoi manylion data ystadegol dienw ar y nifer sy'n cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi gorfodol.

Anogwyd yr aelodau i gyflwyno eu hanghenion hyfforddi unigol erbyn diwedd mis Mawrth, fel y gallai unrhyw ofynion gael eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu, i'w cyflwyno i'r Cyngor Sir ym mis Mai 2021.

PENDERFYNWYD:-

- **Dylai Aelodau roi eu mewnbwn ar eu hanghenion hyfforddi ynghyd â hyfforddiant gorfodol erbyn diwedd Mawrth 2021.**
- **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i drafod trefniadau ar gyfer cynnal sesiynau hyfforddi wyneb yn wyneb gyda'r Rheolwr Hyfforddiant AD.**
- **Rheolwr Hyfforddiant AD i baratoi ac anfon holiadur/arolwg i Aelodau, ynghyd â rhestr o'r cyrsiau hyfforddi sydd ar gael.**
- **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Rheolwr Hyfforddiant AD i baratoi adroddiad ar y lefel o hyfforddiant sydd wedi ei gwblhau ar gyfer cyrsiau gorfodol.**
- **Cyflwyno drafft o'r Cynllun Hyfforddiant a Datblygiad Aelodau ar gyfer 2021/22 i'r Cyngor Llawn i'w gymeradwyo ym Mai 2021.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.45 y.h.

**CYNGHORYDD ROBERT LL JONES
CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 18 Mai, 2021

YN BRESENNOL: Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, Vaughan Hughes, Eric Wyn Jones, Robert Ll Jones, Bob Parry OBE FRAgS, Dylan Rees, J A Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts.

WRTH LAW: Prif Weithredwr,
Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,
Pennaeth Gwasanaethau Democritaidd,
Swyddog Pwyllgor (MEH).

YMDDIHEURIADAU: Dim

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Glyn Haynes – Cadeirydd y Cyngor Sir

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

2 ETHOLIAD IS-GADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Vaughan Hughes yn Is-Gadeirydd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democritaidd.

**Y CYNGHORYDD GLYN HAYNES
FEL CADEIRYDD Y CYNGOR SIR**

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Pwyllgor:	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad:	29 Gorffennaf 2021
Teitl:	Datganiad Amrywiaeth
Pwrpas yr Adroddiad:	Argymhelliad i'r Cyngor i fabwysiadu Datganiad Amrywiaeth
Awdur:	Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

1. Cefndir

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi bod yn rhoddi sylw i amrywiaeth mewn llywodraeth leol a chamau penodol cyn etholiadau 2022. Sefydlwyd Gweithgor er mwyn rhoddi sylw i hyn a chasglu tystiolaeth ynghylch tan gynrychiolaeth mewn democratiaeth.

Cyflwynwyd adroddiad ar ganfyddiadau'r Gweithgor i gyfarfod arbennig o Gyngor CLILC ar 5 Mawrth eleni. Mae'r adroddiad yn cydnabod bod nifer o gamau wedi eu cymryd dros y blynyddoedd i geisio annog mwy o bobl o amrywiol gefndiroedd i sefyll mewn Etholiadau. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bydd rhagor o gamau hefyd ar lefel genedlaethol yn ogystal gan gynnwys ymgyrch genedlaethol i annog grwpiau a dan gynrychiolir i beidleisio a sefyll fel ymgewyr. Bydd rolau penodol hefyd i gyrrff perthnasol, Llywodraeth Cymru a phleidiau gwleidyddol, yn ogystal ag awdurdodau lleol fel â nodir yn yr adroddiad. Mae'r adroddiad ar gael i'w ddarllen yn y ddolen isod:

<https://www.wlga.cymru/council-special-meeting-diversity-in-democracy>

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor 2020-2024 yn cynnwys ymrwymiad i weithio tuag at wneud y Cyngor yn fwy cynrychiadol o'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu – gweler y dyfyniad perthnasol o'r Cynllun yn Atodiad 1.

2. Datganiad Amrywiaeth

Un o'r camau penodol mae CLILC wedi'i gytuno yw i annog pob Cyngor i fabwysiadu datganiad amrywiaeth fel rhan o ymrwymiad awdurdodau lleol i hybu amrywiaeth.

Mae'r Cyngor yn gefnogol i ddatganiad o'r fath, sy'n cydfynd ag amcanion strategol yr awdurdod er mwyn adlewyrchu'r gymdeithas leol. Yn y cyddestun hwn, yr uchelgais a'r nod yw ceisio cynyddu'r niferoedd o ferched, pobl ifanc, pobl anabl a phobl o grwpiau lleiafrifol ethnig sy'n sefyll etholiad i fod yn gynghorwyr.

Bwriedir gofyn i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r datganiad drafft canlynol:

Mae'r Cyngor Sir Ynys Môn yn ymrwmo i fod yn Gyngor amrywiol trwy:

- ddarparu ymrwymiad clir a chyhoeddus i wella amrywiaeth mewn democratiaeth;
- ddangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb, a hyrwyddo'r safonau ymddygiad uchaf;
- ¹weithio'n unol â'r safonau a nodir yn Siarter Cymru ar gyfer Cymorth a Datblygu i Aelodau;
- ddangos ymrwymiad i dyletswydd gofal dros Gynghorwyr;
- ystyried sut i ddarparu hyblygrwydd ym musnes y cyngor drwy adolygu ein trefniadau ymarferol o ran cynnal cyfarfodydd;
- barhau i annog fod yr holl aelodau yn derbyn y lwfansau a'r cyflogau y mae ganddynt hawl eu derbyn, ac yn benodol unrhyw ad-daliadau am gostau gofal, fel bod yr holl aelodau yn derbyn cydnabyddiaeth deg am eu gwaith ac nad yw rôl yr aelodau yn gyfyngedig i'r rhai all ei fforddio;
- weithio tuag at sicrhau bod cynghorwyr o grwpiau a dan gynrychiolir yn cael eu cynrychioli pryd bynnag fo'n bosibl mewn rolau proffil uchel a dylanwad uchel;

Yn ogystal, gofynnir i bob Cyngor lunio Cynllun Gweithredu Cyngor Amrywiol lleol cyn etholiadau lleol 2022. Mae hyn yn gyson â'r weithred yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor. Y bwriad fydd adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ddiwedd Medi ar gynllun gweithredu i gefnogi'r datganiad hwn. Ar hyn o bryd, ni ragwelir costau penodol ychwanegol i gefnogi'r datganiad.

3. Argymhelliad

Yn amodol ar unrhyw sylwadau gan y Pwyllgor, argymell i'r Cyngor y dylid:

- mabwysiadu'r datganiad amrwyiaeth uchod
- dirprwyo hawl i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gyuno cynllun gweithredu i gefnogi'r datganiad

Huw Jones
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
22/7/21

¹ Mae'r Cyngor eisioes wedi derbyn statws y siarter gan GLILC yn 2019.

Dyfyniad o Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor 2020-24

Amcan 6: Byddwn yn cynyddu mynediad at **gyfranogiad** er mwyn gwella amrywiaeth o ran gwneud penderfyniadau

Blaenoriaeth 6.1: Mae cyrff gwneud penderfyniadau yn dod yn fwy cynrychiadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu

Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?

Mae merched yn parhau i gael eu tangynrychioli ymysg ymgeiswyr etholiadol lleol yng Nghymru ac mewn apwyntiadau lleol (*A Yw Cymru'n Decach?* 2018). Bu arolwg o ymgeiswyr etholiad llywodraeth leol yng Nghymru ar gyfer etholiadau Mai 2017 ddarganfod bod 34% yn ferched. Yn dilyn yr etholiad, roedd 26% o **gynghorwyr** yn ferched, gydag amrywiadau sylweddol ar draws y 22 awdurdod lleol (*A Yw Cymru'n Decach?* 2018). Roedd y ganran ar draws y chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru yn 22.9%, gydag Ynys Môn ar 10%, â'r canran isaf un (*Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru*: adroddiad data a thystiolaeth).

Dim ond rhan o fater ehangach sy'n ymwneud ag amrywiaeth yw tangynrychiolaeth merched mewn llywodraeth leol. Mae pobl ifanc yn benodol wedi eu tangynrychioli ar y Cyngor hwn.

Yn ôl adroddiad gan Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Llywodraeth Cymru, 'Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol (Ebrill 2019), mae argaeledd gwybodaeth am rôl y cynghorwyr yn amlwg yn faes sydd angen ei wella. Mae'r adroddiad yn gwneud 22 o argymhellion i Lywodraeth Cymru, yn cynnwys argymhelliad bod "*Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dechrau gweithio ar ymgyrch gadarnhaol er mwyn gwella amrywiaeth ymysg ymgeiswyr sy'n sefyll yn yr etholiadau llywodraeth leol erbyn haf 2019.*"

Mae pedwar o bwyllgorau'r Cyngor hefyd yn cynnwys **aelodau cyfetholedig**. Mae'r cynrychiolwyr hyn yn cael eu recriwtio am gyfnodau penodol er mwyn cynrychioli maes penodol o ddiddordeb neu fater penodol i'w ystyried. Nid aelodau etholedig mohonynt ond byddant yn cael eu penodi oherwydd eu lefel o wybodaeth o phrofiad. Ar hyn o bryd, mae'r proffil rhyw yn gytbwys, gyda 45% (5) o'r un ar ddeg o aelodau cyfetholedig yn ferched.

Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn?	Erbyn pryd?
Cymryd yr holl gamau angenrheidiol yn lleol er mwyn cefnogi'r ymgyrch genedlaethol i ehangu cyfranogiad yn etholiadau lleol 2022.	Mai 2022
Gwneud defnydd o weithredu cadarnhaol fel rhan o'r broses o recriwtio aelodau cyfetholedig.	Fel y bydd swyddi gwag yn codi.

Pa nodweddion gwarchoddedig mae hyn yn effeithio arnynt? Yr holl nodweddion ond Oed (pobl ifanc) a Rhyw (merched) yn benodol.

Dyfyniad o Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor 2020-24

Sut dylai llwyddiant edrych?

Cynnydd mewn amrywiaeth ymysg unigolion sy'n sefyll yn etholiadau llywodraeth leol 2022 ac unigolion sy'n ymgeisio i fod yn aelodau cyfetholedig fel rhan o brosesau recriwtio yn y dyfodol.

Gwasanaeth Arweiniol: Busnes y Cyngor